

ARWEINIAD I DREULIAI'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD

Mae penderfyniadau Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref ar dreuliau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi eu nodi isod:-

Mae paragraff 3 o Atodlen 1 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 ('Deddf 2011') yn nodi y caniateir talu treuliau wedi'u hawdurdodi i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh). Ystyr 'lwfansau wedi'u hawdurdodi' yw lwfansau mewn perthynas â threuliau y bydd y Comisiynydd yn eu cael wrth gyflawni swyddogaethau'r Comisiynydd, a fydd o'r mathau o symiau a benderfynir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Gallai penderfyniad o dan paragraff 3 wneud darpariaeth gwahanol ar gyfer gwahanol achosion.

Lwfansau Awdurdodedig

Diben lwfansau awdurdodedig yw ad-dalu unrhyw dreuliau y mae CHTh yn eu cael wrth gyflawni eu dyletswyddau, nid er mwyn darparu arian rhodd cyffredinol iddynt am gyflawni eu swydd. Telir cyflog i'r Comisiynwyr ar lefel y penderfynir arni gan yr Ysgrifennydd Cartref ar gyngor yr uwch fwrdd adolygu cyflogau.

Mae'r mathau o lwfansau y penderfynir arnynt gan yr Ysgrifennydd Gwladol, at ddibenion paragraff 3 Atodlen 1 i Ddeddf 2011, yn lwfansau mewn perthynas â:

- Costau teithio
- Costau cynhaliaeth
- Costau eithriadol

y bydd CHTh yn eu cael wrth gyflawni swyddogaethau'r Comisiynydd.

Mae symiau lwfansau o'r fath, fel y nodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, wedi eu nodi yn y tabl isod: Tabl o'r symiau a awdurdodir ar gyfer y CHTh		
Treuliau	Cyfyngiad allweddol	Cyfradd
Trên	At ddibenion busnes	Ad-delir hyd at gyfraddau safonol
Mae symiau lwfansau o'r fath, fel y nodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, wedi eu nodi yn y tabl isod: Tabl o'r symiau a awdurdodir ar gyfer y CHTh		
Treuliau	Cyfyngiad allweddol	Cyfradd
Lwfans milltiroedd	Dim ond os oes angen	Yn unol â graddfeydd AHM

Tacsis	Dim ond lle nad yw cludiant cyhoeddus ar gael	Cost y tacsï
Teithio dramor	Awdurdod ymlaen llaw gan y Prif Weithredwr ac at ddibenion busnes y cytunir arnynt ymlaen llaw	Dosbarth economi ar gyfer hedfan
Llety mewn gwesty	Gwerth am arian a'r defnydd gorau o arian cyhoeddus – llety addas pris isel	Dim cyfyngiad penodol ar nifer sêr y gwestai
Cynhaliaeth (DU a thramor)	Dim ond talu am brydau nos a, lle bo hynny'n berthnasol, brecwast (dim cinio)	Brecwast £10 Swper £30
Treuliau eithriadol nad ydynt yn perthyn i unrhyw gategori arall	Treuliau rhesymol a geir wrth gyflawni dyletswyddau'r Comisiynydd	Fel y cymeradwyir gan y prif weithredwr

Cymeradwyaeth y Prif Weithredwr

Fe ddylai Prif Weithredwr y Comisiynydd sicrhau bod yr holl dreuliau a gyflwynir gan y Comisiynydd yn cael eu dilysu a'u harchwilio.

Bydd unrhyw hawliadau am dreuliau eithriadol a wneir gan y Comisiynydd wrth gyflawni swyddogaethau'r Comisiynydd angen cymeradwyaeth Prif Weithredwr y Comisiynydd. Wrth ystyried a ddylid cymeradwyo'r cais fe ddylai'r Prif Weithredwr ystyried y ffactorau canlynol:

- os oes amgylchiadau eithriadol sy'n gwarantu cymorth ychwanegol.
- a fyddai modd rhesymol i'r Comisiynydd fod wedi cymryd unrhyw gamau i osgoi'r amgylchiadau a achosodd y gwariant neu'r treuliau.
- a fydd perfformiad y Comisiynydd o'u swyddogaethau yn cael eu hamharu arnynt yn sylweddol os yw'r hawliad yn cael ei wrthod.

Cyhoeddi lwfansau

Yn unol â pharagraff 1(d) o'r Atodlen i Orchymyn Cyrff Plismona Etholedig Lleol (Gwybodaeth Benodol) 2011, mae angen i CHTh gyhoeddi'r lwfansau a delir iddynt a'u dirprwyon mewn perthynas â'r treuliau a geir gan y Comisiynydd neu'r dirprwy wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau.

Fe ddylai CHTh a'u dirprwyon gyhoeddi dadansoddiad o'u treuliau, gan gynnwys:

- eu henwau, ardal yr heddlu, blwyddyn ariannol, mis, dyddiad, cyfeirnod yr hawliad, math o hawliad (e.e. teithio, llety), disgrifiad byr, manylion, swm sy'n cael ei hawlio, swm a ad-dalwyd, swm na ad-dalwyd a'r rheswm am hynny.
- ar gyfer hawliadau teithio a chynhaliaeth: dyddiad, lleoliad, cyrchfan, categori'r siwrnai, dosbarth y teithio, milltiroedd, hyd yr arhosiad gwesty, categori'r arhosiad gwesty.

